Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



# Masnach a Diwydiant


## Cynllun Gweithgareddau

## Amcanion Dysgu

- Darganfod pam yr adeiladwyd Dyfrbont Pontcysyllte a Chamlas Llangollen.
- Ymchwilio beth oedd effaith y gamlas ar fasnach a diwydiant.
- Deall pa adnoddau naturiol sydd i'w canfod yn Nyffryn Dyfrdwy a'r ardal gyfagos.
- Ymchwilio i'r problemau a wynebwyd wrth gludo carreg o chwareli ochr y bryn i'r gamlas.
- Darganfod y berthynas rhwng deunyddiau crai a'r cynnyrch gorffenedig.
- Datblygu sgiliau meddwl yn feirniadol, ymchwilio a datrys

## Adnoddau

- Ffilm Xplore!: Pam yr adeiladwyd y gamlas?
- PowerPoint Masnach a Diwydiant
- Ymchwilio i Ddeunyddiau Crai: Nodiadau Canllawiau Athrawon a Ffeiliau Ffeithiau
- O'r chwarel i'r gamlas: Nodiadau Canllawiau Athrawon a thaflen cyfarwyddiadau
- Gêm cardiau: Beth ydw i?



## Gweithgareddau

1. Gwyliwch y ffilm Xplore! i ddysgu pam yr adeiladwyd y gamlas ac i ddeall pam fod cludo ar y gamlas yn fwy effeithiol na cheffyl a throl.
2. Chwaraewch y PowerPoint rhyngweithiol i ddysgu am yr effaith y cafodd y gamlas ar fasnach a diwydiant.
3. Defnyddiwch y Ffeiliau Ffeithiau Deunyddiau Crai i ymchwilio i ddiwydiannau Dyffryn Dyfrdwy yn y gorffennol chrëwch gyflwyniad neu daith rithiol o un diwydiant hyd at heddiw ar gyfer y dosbarth.
4. Chwaraewch gêm Pwy ydw i? er mwyn adnabod deunyddiau crai lleol a gwrthrychau'r gamlas.
5. Crëwch inclein ac arbrofwch gyda llethrau i ddarganfod sut roedd rhai o'r deunyddiau crai yn cael eu symud o'r chwareli lawr i'r gamlas.

## Awgrymiadau

Ceisiwch ddod â samplau o dywod, clai, glo, llechi, tywodfaen i'r ysgol i helpu'r plant i'w gweld nhw a/neu enghreifftiau ohonynt yn cael eu defnyddio yn yr ysgol neu ar adeiladau lleol.

## Sesiwn lawn

Roedd deunyddiau crai helaeth Dyffryn Dyfrdwy wedi cael eu defnyddio ar raddfa fechan ers cannoedd o flynyddoedd, ond galluogodd Dyfrbont Pontcysyllte a'r Gamlas iddynt gael eu cludo yn fwy hawdd ac yn rhatach i farchnadoedd rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd rhwydwaith y gamlas yn hwb i dwf economaidd a phoblogaeth cyflym ym Mhrydain yn yr 19eg Ganrif.

## Cysylltiadau Cwricwlwm CA2

| Lloegr | Cymru |
|---|---|
| · Hanes | · Dyniaethau |
| · Daearyddiaeth | · Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
| · Gwyddoniaeth | · Llythrennedd a Chyfathrebu |
| · Saesneg | |

## Gwefannau defnyddiol/adnoddau ychwanegol

- Cefn Mawr Heritage Trail
- Canal & River Trust – The First Canal Age
- Canal & River Trust – Boats Learning Bundle